**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

31 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelwch Adeiladau

Fel y gwyddoch, cafodd y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3 a Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Adeiladau eu cyfeirio at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i gynnal gwaith craffu arnynt. Gwyddoch ein bod hefyd wedi ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) yn nhymor yr hydref 2021.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar 15 Rhagfyr 2021 ac fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 17 Rhagfyr 2021 i dynnu sylw at y pryderon a godwyd gan rai Aelodau yn ystod ein cyfarfod, a gofyn i chi ystyried y pryderon hynny mewn perthynas â'ch gwaith. ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Gwnaethom ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) yn ein cyfarfodydd ar 9 Chwefror a 9 Mawrth yn y drefn honno, a chyhoeddwyd ein hadroddiad ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol hyn ar 29 Mawrth. Yn y cyfarfod ar 9 Mawrth, cytunwyd i ysgrifennu atoch i bwysleisio ymhellach ein pryder ynghylch y gwaith craffu cyfyngedig sydd ar gael wrth ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol, o gymharu â deddfwriaeth sylfaenol. Yn dilyn hynny, clywsom y byddai memorandwm cydsyniad deddfwriaeth atodol pellach, (Rhif 5), yn cael ei osod cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd a'r ddadl ar 29 Mawrth. Gwyddoch i hwn gael ei osod wedi hynny, ar 25 Mawrth. Nid oeddem, felly, wedi gallu ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth, ond

trafodwyd y mater a chytunwyd ei bod yn siomedig na fyddai digon o amser i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

Gyda nifer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru ers y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ym mis Gorffennaf 2021, mae'r newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru yn sylweddol ac fel Pwyllgor rydym yn cytuno bod hon yn ddeddfwriaeth sylweddol nad yw wedi bod yn destun gwaith craffu manwl. Yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2021, dywedom fod y Gweinidog Newid Hinsawdd wedi ymateb i bryderon rhai Aelodau ynghylch defnyddio darpariaethau mewn Bil y DU – yn hytrach na Bil y Senedd – drwy dynnu sylw at natur hwylus ac amserol defnyddio memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, gyda nifer y memoranda cydsyniad atodol pellach a osodwyd ers y cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan yr honiad cynharach hwn gan y Gweinidog.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich Pwyllgor ystyried y pryderon hyn mewn unrhyw ohebiaeth â'r Llywydd a Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â'ch gwaith chi ar y defnydd o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.